Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg
Dyddiad y Cyfarfod	15 Ebrill 2023
Aelod/Swyddog Arweiniol	Cyng Elen Heaton, Aelod Arweiniol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol/ Nicola Stubbins
Awdur yr Adroddiad	Margaret Watkins, Swyddog Datblygu Staff
Teitl	Fframwaith 'Mwy na geiriau / More than just words''

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwaith a wnaed mewn perthynas â datblygu'r fframwaith 'Mwy na geiriau'

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybod i aelodau am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r fframwaith 'Mwy na geiriau'.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les fel rhan o'i ystyriaeth

4. Manylion yr Adroddiad

Mae 'Mwy na geiriau' yn fframwaith ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

Nod y fframwaith 5 mlynedd a gyhoeddwyd yn 2022 yw sicrhau bod sefydliadau'n cydnabod bod iaith yn rhan gynhenid o ofal a bod pobl sydd angen gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig. Gelwir hyn yn 'Cynnig Rhagweithiol'.

Fel rhan o fframwaith 'Mwy na Geiriau', mae angen sicrhau bod dinasyddion yn gallu:

- derbyn gofal iaith briodol o ansawdd uchel;

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is available in Welsh.

- cael mynediad at wasanaethau Cymraeg ar draws gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol pan fydd eu hangen arnynt;

- cael sicrwydd drwy ddarpariaeth y ‘Cynnig Rhagweithiol’ eu bod yn cael eu trin â pharch ac urddas.

O fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych mae ymrwymiad clir i gyflawni newid a gwella gwasanaethau er mwyn sicrhau bod angen yr iaith Gymraeg yn elfen allweddol o ofal, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan y sector annibynnol a'r trydydd sector.

Mae fframwaith ‘Mwy na Geiriau’ yn nodi sut y byddwn gyda’n gilydd yn bwrw ymlaen â chynnydd o dan thema gyffredinol diwylliant ac arweinyddiaeth. Bydd y camau gweithredu y bydd y Cyngor yn eu rhoi ar waith yn 2023-24 yn cynnwys:

- darparu manylion ar sut mae gwasanaethau ar hyn o bryd yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ochr yn ochr â thargedau i sicrhau gwelliant

- Cefnogi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol

- rhannu arfer gorau wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg a sut i wneud “Cynnig Rhagweithiol” gyda’r holl staff a gyflogir yn uniongyrchol neu o fewn gwasanaethau a gomisiynir:

- darparu hyfforddiant iaith ac adnoddau i'r holl staff a chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg gynyddu eu hyder wrth gyflwyno gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru angen adroddiad blynyddol gan Sir Ddinbych ar gyflawni camau gweithredu penodol wrth roi’r fframwaith ar waith. Bydd monitro pellach ar weithrediad y fframwaith yn canolbwyntio ar brofiad defnyddwyr o’r gwasanaeth a systemau monitro presennol (e.e. o fewn arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru).

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Themâu Corfforaethol?

Mae fframwaith ‘Mwy na Geiriau’ yn cyfrannu at iechyd a lles trigolion, yn ogystal â hyrwyddo’r cynnig gweithredol o dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn unol â’r ymrwymiad a wnaed yn Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor i gynyddu cyfleoedd i bobl gael mynediad at wasanaethau Cymraeg. Mae hefyd yn unol â gofynion Safonau’r Gymraeg.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae’r fframwaith hwn yn effeithio’n bennaf ar wasanaethau cymdeithasol (Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Plant), er bod gorgyffwrdd â’r gwaith sy’n cael ei wneud yn gorfforaethol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Er nad oes angen Asesiad ffurfiol o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg.

Un o gydrannau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw cael: "*Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu : Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden".*

Mae gan y Cyngor hefyd rôl, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Iaith Gymraeg.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Ddim yn berthnasol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ddim yn berthnasol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y brif risg yw methu â chyflawni'r camau gweithredu a nodir yn fframwaith 'Mwy na Geiriau' sef na fydd dinasyddion yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith.

Er mwyn lleihau'r risgiau hyn, mae grŵp monitro wedi'i sefydlu ac yn cyfarfod bob tri mis i roi camau gweithredu'r fframwaith ar waith ac olrhain cynnydd.

Mae rhaglen o gyfathrebu a hyfforddiant wedi'i chynnal i sicrhau bod holl staff y gwasanaethau cymdeithasol yn deall y gweithgareddau a nodir yn y fframwaith ac yn gweithredu'n weithredol arnynt.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Ddim yn berthnasol.